

Sut y gallwch wella'ch arferion cyllid a chyfrifo, heddiw!



Gyda dechrau'r flwyddyn dreth newydd yn cyrraedd y mis hwn, pa amser gwell i werthuso a gwneud gwelliannau o ran y ffordd rydych yn rheoli eich arferion cyllid a chyfrifo?

I fusnesau bach, gall rheoli eich gwybodaeth ariannol fod yn her ac rydym yn deall fod amser yn werthfawr, felly rydym yn cyflwyno ychydig o awgrymiadau defnyddiol i chi ar sut y gallwch wella'ch arferion cyllid a chyfrifo, gan ddechrau heddiw!

Cyllid yw asgwrn cefn unrhyw fusnes, felly mae dilyn yr awgrymiadau cyfrifyddu hyn yn hanfodol i lwyddiant busnes...

Beth yw'r pwysigrwydd?

Gyda'r amodau economaidd ansicr hyn rydym i gyd yn eu hwynebu, mae pwysau cynyddol ar fusnesau i wneud y penderfyniadau cywir y tro cyntaf ac, oherwydd hynny, mae ar fusnesau angen systemau rheolaeth ariannol sy'n rhoi gwybodaeth gywir ac amserol sy'n addas i'r pwrpas.

Mae ar unrhyw fusnes angen gwneud yn siŵr ei fod yn cofnodi'r wybodaeth gyfrifyddu gywir, boed hynny am resymau statudol a/neu resymau treth, neu ar gyfer gwella rheolaeth ariannol a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar well gwybodaeth. Ac er nad oes gofyniad cyfreithiol i baratoi cyfrifon rheoli, mae hi bron yn amhosibl dod o hyd i fusnes llwyddiannus nad yw'n creu cyfrifon rheoli rheolaidd.

Bydd proses cyfrifyddu rheoli effeithiol yn helpu busnesau i wneud y canlynol:

- Cymharu ffigurau gwirioneddol â rhagolygon



- Rheoli adnoddau yn well
- Canfod tueddiadau
- Monitro proffidioldeb
- Gwerthuso effaith ariannol strategaethau a chynlluniau

Mae cofnodi gwybodaeth gyfrifyddu gywir yn helpu cwmnïau i ysgogi twf drwy wella rheolaeth ariannol a darparu adnoddau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar well gwybodaeth. Y Cyfarwyddwr Cyllid fyddai'n gyfrifol am wneud hyn mewn sefydliadau mawr, ond ychydig iawn o gwmnïau bach sydd ag arbenigedd ariannol ar lefel uwch yn eu timau rheoli. Wrth i fusnesau bach dyfu, mae rheolwyr sy'n berchnogion yn aml yn sylwi eu bod yn gorfod troi eu llaw at holl elfennau'r busnes i gyflawni'r holl swyddogaethau gweithredol dydd i ddydd, ond bod ganddynt lai o amser i feddwl am ddyfodol tymor hirach y busnes.

Ein hawgrymiadau ar gyfer gwella eich proses...

Mae system gyfrifyddu gadarn yn agwedd hanfodol ar redeg unrhyw fusnes. Ni waeth pa mor fach yw eich busnes, dylai'r cyfrifon gael eu diweddarau, dylent fod yn gywir a dylent fod ar gael yn rhwydd gan eu bod yn rhoi gwybodaeth hollbwysig am sefyllfa ariannol eich busnes. Fodd bynnag, mae llawer o fusnesau bach yn aml yn ceisio ymdopi â'r heriau gweithredol dydd i ddydd pan fyddant yn codi.

Ond dylai busnesau bach wneud amser i strwythuro gweithdrefnau a chategoriâu cyfrifyddu sy'n golygu eu bod yn gallu dadansoddi cyfrifon, sylwi ar dueddiadau a chynllunio'r busnes yn rhwydd, yn ogystal â chydymffurfio â threthi syml. Bydd manteision gwneud amser i greu isadeiledd cyfrifyddu mwy cadarn yn dod â mwy fyth o fanteision, gan ganiatáu datblygiad a thwf rhwydd. Dyma rai o'n hawgrymiadau ar sut y gallwch ddechrau gwella eich systemau, heddiw...

1. Cynllunio Ymlaen Llaw...



Mae cynllun busnes realistig yn elfen hanfodol o'ch busnes. Bydd yn eich helpu i ddal i ganolbwyntio ar y darlun ehangach a'r hyn rydych chi'n ceisio ei gyflawni yn y tymor hirach, tra byddwch yn rheoli'r gweithgareddau gweithredol dydd i ddydd sy'n creu galw cynyddol am eich amser.

Dylai eich cynllun busnes nodi eich amcanion cyffredinol, pa strategaethau sydd eu hangen i'ch helpu i gyflawni'r amcanion hynny a'r rhagolygon a'r amcanestyniadau ariannol i ddarparu'r amcanion hynny. Mae'n bwysig buddsoddi amser wrth gynllunio busnes oherwydd mae'n rhan hanfodol o unrhyw ymgais i sicrhau cyllid ar gyfer eich busnes.

2. Arian sy'n ben, ond mae gwybodaeth yn ail agos...

Un o egwyddorion craidd cyfrifon rheoli yw sicrhau bod y data a'r wybodaeth sy'n cael eu cofnodi a'u hadrodd yn ôl yn berthnasol, yn gywir, yn graff ac yn gyfreithadwy – mae cyfrifon rheoli yn eich helpu i wneud penderfyniadau gwell am ddyfodol eich busnes.

Mae adnabod ysgogwyr busnes hollbwysig yn allweddol er mwyn llwyddo – beth sydd ei angen arnoch i fesur, i'ch helpu i gynllunio eich busnes yn fwy effeithiol? Datblygu cyfrifon rheoli sy'n canolbwyntio ar yr elfennau allweddol hynny ac nid ar gasglu data amherthnasol sy'n wastraff amser.

Nid yw gwybodaeth rheoli yn gyfyngedig i ddata ariannol. Gall niferoedd cynhyrchu, cynhyrchiant llafur, ac effeithlonrwydd peiriannau i gyd fod yn rhan o'ch cylch adrodd yn ôl ar reoli, gan sicrhau bod eich proses cyfrifyddu rheoli yn gweithio'n ddi-dor gyda'ch data cynhyrchu.

3. Rhoi'r gorau i ohirio'r gwaith...

Gall dadansoddi data misol eich helpu i weld pa rannau o'ch busnes sy'n cynyddu, pa rai sy'n gostwng, a pha elfennau y gellid eu gwella.



Os ydych chi wastad ar ei hôl hi wrth gadw cyfrifon, bydd yn mynd yn fwyfwy anodd gwneud penderfyniadau strategol pan fydd angen hynny fwyaf arnoch. Os nad ydych yn neilltuo amser i wneud y dasg hon bob mis, yna gallai hynny olygu eich bod yn colli cyfleoedd.

Neilltuwch amser bob mis i ddiweddarau eich gwaith papur a'ch cyfrifon. Peidiwch â gadael i dderbynebaw ac anfonebau bentyrri. Gall hyn arbed llawer o amser, straen ac arian i chi yn y tymor hir drwy osgoi rhuthr munud-olaf a chamgymeriadau costus ar ddiwedd y flwyddyn dreth.

Os ydych chi'n aros rhy hir i wneud eich gwaith cadw cyfrifon, efallai y byddwch yn anghofio beth yw rhai o'r trafodiadau, sy'n cymhlethu'r broses. Bydd gosod amser penodol bob mis yn eich helpu i sicrhau bod y broses yn effeithlon, yn ddi-boen ac mor gywir â phosibl. Felly, er mai dyma'r peth olaf y byddwch am ei wneud ar ôl diwrnod hir a chaled o waith, peidiwch â mynd i'r arfer o ohirio'r gwaith, a meddyliwch am y broblem y byddwch yn ei hosgoi yn ddiweddarach.

4. Cofnodi gwybodaeth gywir...

Gofynnwch am gyngor arbenigol i ddeall eich sefyllfa o ran TAW yn iawn. Gall y sefyllfa newid dros gyfnod 12 mis treigl. Bydd gan fusnesau gwahanol driniaethau gwahanol ar gyfer TAW, felly bydd yr wybodaeth sy'n cael ei defnyddio mewn cyfrifon rheoli yn anghywir os na chyfrifir amdani yn gywir.

I wneud pethau'n haws, gallwch gael cyfrif banc a cherdyn credyd ar wahân ar gyfer eich busnes, felly pan fyddwch yn mynd drwy eich anfonebau a'ch derbynebaw, byddwch yn gwybod bod pob gwariant yn gysylltiedig â'r busnes. Bydd hynny'n eich helpu i gyflymu'r broses.

Dylech roi label a chategori i bob gwariant ac olrhain eich llif arian. Cadwch gopïau digidol o dderbynebaw ac anfonebau rydych chi wedi eu talu. Cywirwch unrhyw gamgymeriadau cyn gynted ag y byddwch yn sylwi arnynt, fel arall gallai'r broblem ddod yn anos ei datrys.

Cofiwch wahanu treuliau busnes a threuliau personol. Yn gyffredinol, ni allwch ddidynnu treuliau personol ar ffurflenni treth busnes. Fodd bynnag, os ydych chi'n defnyddio eiddo ar gyfer defnydd busnes a defnydd personol, fel car neu swyddfa



gartref, yna bydd modd didynnu cyfran yr amser rydych chi wedi defnyddio'r eiddo ar gyfer busnes. Fel arall, ni chaniateir didynnu treuliau personol ar ffurflenni treth busnes. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

<https://www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/business-income-manual/bim47825>

5. Penderfynwch beth yw eich cryfderau...

Er eich bod yn adnabod eich busnes yn well nag unrhyw un arall, efallai nad oes gennych chi'r amser na'r profiad i edrych ar eich systemau cyfrifyddu a deall beth yw ystyr y ffigurau.

Ydy hi'n amser i chi gyflogi swyddog cadw cyfrifon neu gyfrifydd? Gall cyflogi swyddog cadw cyfrifon neu gyfrifydd proffesiynol, hyd yn oed am ddim ond ychydig oriau'r wythnos neu'r mis, wneud gwahaniaeth mawr. Mae gwaith swyddog cadw cyfrifon a chyfrifydd yn debyg, ond bydd gwahaniaeth sylweddol rhwng ffioedd y ddau weithiwr. Prif flaenoriaeth swyddog cadw cyfrifon yw cofnodi a dosbarthu incwm a gwariant er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn cael eu diweddarau a'u bod yn drefnus. Bydd cyfrifydd yn darparu cynlluniau strategol a gwybodaeth fanwl am ofynion cyfreithiol, yn ogystal â chynngor ar drethi.

6. Croesawu technoleg...

Mae llawer o ffyrdd gwahanol o gofnodi a chynnal gwybodaeth rheoli, gan amrywio o gyfnodolion papur i daenlenni, pecynnau oddi ar y silff i systemau cyfrifiadurol pwrpasol.

Mae meddalwedd cyfrifyddu yn adnodd gwych ar gyfer unrhyw fusnes bach bron â bod. Mae meddalwedd cyfrifyddu cwmwl yn eich galluogi chi eich hun, eich swyddog cadw cyfrifon a'ch cyfrifydd i gael gafael ar yr wybodaeth yn unrhyw le. Mae llawer o ddewisiadau ar gael nawr am brisiau rhesymol, lle gall cyfrifon banc a chardiau credyd gael eu cysylltu'n uniongyrchol â'ch meddalwedd cyfrifyddu i sicrhau bod cyfrif am bob trafodiad. Yna bydd y feddalwedd yn olrhain eich incwm a'ch gwariant, yn eu categoreiddio, ac yn eich galluogi chi i anfon anfonebau a thalu am anfonebau, yn ogystal â chreu adroddiadau. Gwnewch eich gwaith ymchwil ar-lein neu gofynnwch i'ch rhwydwaith am argymhellion i'ch helpu i ddod o hyd i system sy'n gweithio i chi.



Mae rhaglenni'n dod â phrosesau adrodd amser real i berchnogion busnesau bach ac yn gwneud llawer o'r tasgau cadw cyfrifon llafurus yn awtomatig. Fodd bynnag, bydd y canlyniadau'n dibynnu'n llwyr ar yr wybodaeth y byddwch yn ei chyflwyno.

7. Disgwyliwch y pethau annisgwyl...

Peidiwch â gadael i wariant annisgwyl eich synnu. Ni waeth faint o amser ac ymdrech a ddefnyddiwch wrth gynllunio a rhagfynegi eich gwariant, bydd costau annisgwyl yn codi bron bob amser. Ond gallwch ragweld hyn a pharatoi ar gyfer costau ychwanegol.

Gall helpu os oes gennych chi gronfa wrth gefn neu os oes modd i chi gafael ar gyfalaf yn gyflym. Er enghraifft, os oes gennych chi gyfarpar sy'n hanfodol i chi allu gwneud busnes, bydd arnoch angen arian i drwsio'r cyfarpar hwnnw neu i gael cyfarpar newydd yn gyflym os bydd yn methu. Neu gallai'r costau fod yn gysylltiedig â thwf, os yw hi'n hanfodol i chi gyflogi gweithwyr newydd neu os oes angen cyflenwadau neu hyfforddiant arnoch, neu gallai'r costau ymwneud â chyfle annisgwyl hyd yn oed.

Er mwyn cynllunio faint o arian i'w neilltuo, gallwch ddechrau drwy ofyn ychydig o gwestiynau syml. Faint yw oedran eich cyfarpar? Ydych chi'n debygol o gyflogi staff newydd yn ystod y blynyddoedd nesaf? A oes technoleg newydd a allai ychwanegu gwerth i'ch busnes? Gobeithiwch am y gorau, cynlluniwch ar gyfer y gwaethaf.

8. Rhowch o'ch amser i ddysgu...

Hyd yn oed os ydych yn cyflogi swyddog cadw cyfrifon neu gyfrifydd, fel perchennog busnes, mae'n hanfodol bod gennych ddealltwriaeth sylfaenol o jargon ariannol. Treuliwch amser i fwrdd o'ch busnes i ddysgu'r pethau sylfaenol a deall sut mae cyfrifon cwmni'n cael eu creu. Bydd gwell dealltwriaeth yn ychwanegu gwerth i'ch busnes.

Dylai dealltwriaeth o gyfrifyddu sylfaenol gynnwys egwyddorion cadw cyfrifon, atodlenni cyfrifon a meddalwedd cyfrifyddu. Byddai deall cyfrifyddu ar lefel uwch



yn golygu dysgu gwybodaeth am dechnegau cyfrifyddu rheoli, modelu busnes, rhagfynegi, costau sefydlog ac amrywiol, a dulliau prisiau cynnyrch.

Mae'n hanfodol eich bod yn dod i ddeall eich cyfrifon fel eu bod yn dod yn gymorth hanfodol i chi wrth wneud penderfyniadau yn hytrach nag yn dasg ddfilas. Mae deall sut i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth rheolaeth ariannol yn allweddol er mwyn deall beth mae'r ffigurau'n ei ddweud wrthyh.

Y gwir amdani...

Ni waeth pa mor brysur ydych chi, mae'n bwysig cofio na allwch chi adeiladu a datblygu busnes cynaliadwy heb arferion cyfrifyddu cadarn sydd wedi'u strwythuro. Drwy dreulio amser i ffwrdd o'ch busnes dydd i ddydd er mwyn dysgu, datblygu a chynllunio ar gyfer gwella eich systemau, gallwch arbed amser ac arian yn y tymor hir yn ogystal â chael yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i dyfu fel busnes.

Cefnogi tyfwyr yng Nghymru...

O ganlyniad i'r anghenion hyfforddi a nodwyd drwy ein Hadnodd Diagnostig Sgiliau a Hyfforddiant sydd newydd ei lansio, mae Tyfu Cymru wedi bod yn brysur yn darparu hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Ariannol i nifer dethol o fusnesau garddwriaethol ledled Cymru. Roedd y modiwlau'n cynnwys:

- Datblygu modelau busnes sy'n creu darlun ariannol clir o'r busnes, gan roi amcanestyniad 5 mlynedd o ran twf, gan dynnu sylw at unrhyw gyfyngiadau a gofynion cyllido. Roedd y cymorth yn cynnwys atodlenni cyfrifyddu sylfaenol o elw a cholled, mantolen a llif arian, sy'n hanfodol ar gyfer unrhyw gais am gyllid neu grant.
- Cynlluniau busnes manwl a all gefnogi ceisiadau am gyllid, yn cynnwys dadansoddiad clasurol o'r busnes, ei ddyheadau a'i ddisgwyliadau, gan ymdrin â'r farchnad, gweithrediadau a materion ariannol.



- Hyfforddiant ar gyfrifon sydd wedi'i deilwra i sicrhau bod gan y busnes wybodaeth ddibynadwy o'i becyn cyfrifon i hwyluso arferion rheoli da.
- Dod o hyd i ffynonellau cyllid posibl a'r dull cywir o dargedu'r ffynonellau hyn.

Mae'r cymorth a'r hyfforddiant wedi sicrhau bod y cwmnïau mewn gwell sefyllfa i gyflawni'r datblygiad a ddymunir ac maent wedi darparu cynllun clir ar gyfer gofynion buddsoddi.

Dywedodd un o'r busnesau garddwriaethol a gafodd yr hyfforddiant,

'Roedd y cyfle i gael sylw cynghorydd busnes yn un anhygoel, roedd yn wych cael arbenigwr busnes yn fy helpu'

Dywedodd Alun Lewis, cyfrifydd cymwysedig ers blynnyddoedd lawer, sydd wedi gweithio mewn amrywiaeth o swyddi uwch gan gynnwys Prif Fwrdd cwmni FTSE 250, ac a wnaeth ddarparu'r hyfforddiant drwy Tyfu Cymru:

"Drwy Tyfu Cymru, mae tyfwyr garddwriaethol masnachol yng Nghymru wedi cael cyfle arbennig i wella eu prosesau cyllid a chyfrifo i gefnogi twf eu busnes. Rydyn ni wedi gweithio gyda llawer o dyfwyr ar amrywiaeth o wahanol faterion, ond mae gan lawer ohonynt themâu cyffredin, fel yr angen i symleiddio eu harferion cyfrifyddu i arbed amser a sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt o'u cyfrifon rheoli. Rydyn ni wedi darparu hyfforddiant un-i-un pwrpasol ar bynciau gan gynnwys, cynllunio ar gyfer twf, rhoi meddalwedd cyfrifyddu newydd ar waith, deall cyfrifon rheoli ac arferion rheolaeth ariannol sylfaenol. Mae hwn yn gyfle gwych a dylai pob busnes garddwriaethol yng Nghymru ystyried cefnogi eu twf"



Ble mae cael rhagor o wybodaeth?

Os ydych chi'n awyddus i wella'r sgiliau ariannol yn eich busnes garddwriaethol, anfonwch e-bost i tyfucymru@lantra.co.uk i gael rhagor o wybodaeth am Adnodd Adolygu Busnes Tyfu Cymru.